# Concise Minutes – Y Pwyllgor Deisebau

Meeting Venue:

**Ystafell Bwyllgora 1 – y Senedd**

Meeting date: Dydd Mawrth, 7 Tachwedd 2017

Meeting time: 09.15 – 10.51

This meeting can be viewed on Senedd TV at:

http://senedd.tv/en/4367

## Attendance

| Category | Names |
|---|---|
| Assembly Members: | David J Rowlands AC (Cadeirydd)<br>Rhun ap Iorwerth AC<br>Janet Finch-Saunders AC<br>Neil McEvoy AC<br>David Rees AC (yn lle Mike Hedges AC) |
| Witnesses: | Lesley Griffiths AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig<br>Neil Hemington, Llywodraeth Cymru<br>Joanne Smith, Llywodraeth Cymru |
| Committee Staff: | Graeme Francis (Clerc)<br>Kayleigh Imperato (Dirprwy Glerc)<br>Kath Thomas (Dirprwy Glerc) |

## 1 (9.30) Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod, a

Rhun ap Iorwerth AC a Neil McEvoy AC i'r Pwyllgor Deisebau.

Anfonodd Mike Hedges AC ei ymddiheuriadau ac roedd David Rees AC yn bresennol fel dirprwy.

## 2 Deisebau newydd

### 2.1 P-05-781 Cymuned Port Talbot yn erbyn yr Archgarchar

Datganodd David Rees y buddiant perthnasol a ganlyn o dan Reol Sefydlog 17.24A:

Mae'n cefnogi'r ddeiseb gan ei bod yn effeithio'n uniongyrchol ar ei etholaeth.

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb am y tro cyntaf a chytunodd i ysgrifennu at y canlynol:

- y Pwyllgor Busnes i ofyn am amser ar gyfer dadl yn y Cyfarfod Llawn cyn gynted â phosibl; a'r
- Weinyddiaeth Gyfiawnder i'w hysbysu am y ddeiseb ac y bydd y Pwyllgor yn gofyn am ddadl yn y Cyfarfod Llawn.

### 2.2 P-05-782 Adeiladu Ffordd Osgoi Cas-gwent i Gael Gwared ar y Tagfeydd oddi ar yr M48 i'r A48

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb am y tro cyntaf a chytunodd i aros i glywed barn y deisebydd ynghylch ymateb Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith cyn penderfynu ar gamau pellach i'w cymryd ynghylch y ddeiseb.

### 2.3 P-05-783 Sicrhau Cydraddoldeb Cwricwlwm i Ysgolion Cyfrwng Cymraeg e.e. Seicoleg TGAU

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb am y tro cyntaf a chytunodd i aros i glywed barn y deisebydd ynghylch ymateb Llywodraeth Cymru a Cymwysterau Cymru cyn penderfynu ar gamau pellach i'w cymryd ynghylch y ddeiseb.

## 3 Y wybodaeth ddiweddaraf am ddeisebau blaenorol

### 3.1 P-04-682 Sgrinio Rheolaidd ar gyfer Diabetes Math 1 mewn Plant a Phobl Ifanc

Trafododd y Pwyllgor yr ymatebion gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, byrddau iechyd lleol a chyrff proffesiynol, a chytunodd i wahodd Ysgrifennydd y Cabinet i gyfarfod Pwyllgor yn y dyfodol i roi rhagor o dystiolaeth cyn llunio adroddiad ar y ddeiseb.

### 3.2 P-04-628 Mynediad at Iaith Arwyddion Prydain i Bawb

Trafododd y Pwyllgor y diffyg ymateb gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i ohebiaeth y Pwyllgor, a chytunodd i ysgrifennu llythyr pellach at CLlLC yn mynegi ei siom a gofyn am ymateb brys i'r llythyr dyddiedig 3 Awst.

Yn dilyn y cyfarfod, daeth ymateb i law gan CLlLC.

### 3.3 P-05-760 Atal TGAU Cymraeg Gorfodol

Trafododd y Pwyllgor ohebiaeth gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg a chytunodd i gau'r ddeiseb yng ngoleuni'r ymrwymiad digamsyniol a fynegwyd gan Ysgrifennydd y Cabinet i astudiaeth orfodol o'r Gymraeg ar lefel TGAU, a'i hatebion i'r pryderon a fynegwyd gan y deisebydd.

### 3.4 P-04-688 Gorsaf Bŵer Tata Steel ym Mhort Talbot

Trafododd y Pwyllgor ohebiaeth gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith a chytunodd i aros am farn y deisebydd ynghylch y wybodaeth ddiweddaraf cyn ystyried cau'r ddeiseb, yng ngoleuni'r wybodaeth a ddaeth i law a chyllid pellach a ymrwymwyd gan Lywodraeth Cymru yn y gyllideb ddrafft ar gyfer 2018-19.

### 3.5 P-05-738 Deiseb Gyhoeddus ar gyfer Ffordd Osgoi i Ddinas Powys

Trafododd y Pwyllgor gohebiaeth gan Gyngor Bro Morgannwg, ynghyd â sylwadau pellach gan y deisebydd, a chytunodd i ysgrifennu at Gyngor Bro Morgannwg i ofyn am

y wybodaeth ddiweddaraf pan fydd Cabinet y Cyngor wedi trafod canlyniadau'r adroddiad Cam 2 WelTAG.

### 3.6 P-05-748 Bysiau Ysgol i Blant Ysgol

Trafododd y Pwyllgor y diffyg ymateb gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i ohebiaeth y Pwyllgor, a chytunodd i ysgrifennu llythyr pellach at CLlLC yn mynegi ei siom a gofyn am ymateb brys i'r llythyr dyddiedig 24 Gorffennaf.

### 3.7 P-05-758 Cerflun i Anrhydeddu Billy Boston

Trafododd y Pwyllgor ohebiaeth gan y deisebydd a chytunodd i ofyn i'r deisebydd roi diweddariad pellach i'r Pwyllgor am y prosiect maes o law.

### 3.8 P-05-776 Cydnabod tri chan mlwyddiant Williams Pantycelyn

Datganodd Rhun ap Iorwerth y buddiant perthnasol a ganlyn o dan Reol Sefydlog 17.24A:

Mae mewn cysylltiad â'r prif ddeisebydd ynghylch y mater.

Trafododd y Pwyllgor ohebiaeth gan Gyngor Celfyddydau Cymru a chytunodd i ysgrifennu at y deisebydd i rannu gwybodaeth am y digwyddiad diweddar yn y Senedd a'r atebion a roddwyd gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith, a gofyn a yw'n gwybod am unrhyw sefydliadau neu unigolion addas a allai gyflwyno cynigion pendant.

### 3.9 P-05-742 Peidiwch â Gadael i Forsythia Gau

Trafododd y Pwyllgor ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i ysgrifennu at Gyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful ac Ymddiriedolaeth Ddatblygu 3G i ofyn am y wybodaeth ddiweddaraf am ddarparu gwasanaethau nawr ac yn y dyfodol i bobl ifanc yng Nghanolfan Ieuenctid Forsythia.

### 3.10 P-05-715 Gwahardd Cynhyrchu, Gwerthu a Defnyddio Maglau yng Nghymru

Trafododd y Pwyllgor ohebiaeth gan y deisebydd a chytunodd i gau'r ddeiseb gan fod y mater wedi bod yn destun sylw manwl yn ddiweddar gan y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig, a bod Llywodraeth Cymru wedi derbyn argymhellion y pwyllgor hwnnw.

### 3.11 P-05-773 Peidiwch â Llenwi Safleoedd Tirlenwi!

Trafododd y Pwyllgor ohebiaeth gan y deisebydd a chytunodd i ysgrifennu at Gyngor Caerdydd i rannu sylwadau'r deisebydd ynghylch y bagiau ailgylchu a ddefnyddir yng Nghaerdydd, a'i chynnig y dylid gosod sticeri ar finiau du i godi ymwybyddiaeth y bydd gwastraff ynddynt yn cael ei anfon i safleoedd tirlenwi.

### 4.1 P-04-472 Gwnewch y Nodyn Cyngor Technegol Mwynau yn Ddeddf

Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Lesley Griffiths AC, Neil Hemington a Joanne Smith.

Cytunodd Ysgrifennydd y Cabinet i ymchwilio ymhellach i sylwadau a briodolir i'r arolygydd cynllunio yn ystod gwrandawiad apêl ynghylch cais cloddio glo brig ym Mryn Farteg, ac ysgrifennu at y Pwyllgor.

### 4.2 P-04-575 Galw i Mewn Pob Cais Cynllunio ar Gyfer Cloddio Glo Brig

Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Lesley Griffiths AC, Neil Hemington a Joanne Smith.

Cytunodd Ysgrifennydd y Cabinet i ymchwilio ymhellach i sylwadau a briodolir i'r arolygydd cynllunio yn ystod gwrandawiad apêl ynghylch cais cloddio glo brig ym Mryn Farteg, ac ysgrifennu at y Pwyllgor.